# HYRWYDDWYR CREADIGRWYDD IFANC

## Pwrpas

Mae'r gweithgaredd yma ar gyfer arweinwyr ac athrawon mewn ysgolion sydd eisoes yn gweithredu dull o ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc am greadigrwydd a meddwl creadigol. Gallai eich ysgol neu'ch canolfan ddefnyddio enw gwahanol ar gyfer hyn (er enghraifft, Cyngor Creadigrwydd yr Ysgol) ond at ddibenion y gweithgaredd yma, byddwn ni'n defnyddio'r term Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc (YCC).

Gall pobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml, rannu gwybodaeth gyfoethog ynghylch ymhle mae meddwl creadigol eisoes yn bresennol yn eich ysgol, a syniadau am ffyrdd o'i ddatblygu yn well. Mae'r gweithgaredd yma'n eich annog chi i fyfyrio ar eich arferion cyfredol ac ystyried y camau y gallai fod angen eu cymryd i roi llais mwy ystyrlon a dilys i blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau, gan ddefnyddio Model Lundy ar gyfer Cyfranogaeth Plant.

Mae'n eich annog chi hefyd i archwilio sut y gallech ddatblygu modelau mwy cynhwysol a chynrychiadol o sicrhau cyfranogaeth disgyblion mewn penderfyniadau er mwyn cynorthwyo cysylltiad pobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml fel YCC.

## Adnoddau a'r drefn

Bydd ar bob grŵp angen set o'r adnoddau canlynol:

- 2 gopi o **Adnodd 1: Model Lundy**
- Copi papur maint A3 o **Adnodd 2: Graffeg o nodau Model Lundy**
- 2 gopi o **Adnodd 3: Model Lundy ar waith - cwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun ac am eich gwaith**
- 2 gopi o **Adnodd 4: Cynnwys plant a phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml fel Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc**
- Copi papur maint A3 o **Adnodd 5: Trefnu neu adolygu grŵp o Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc** (neu gallwch ysgrifennu hyn ar ddarn o bapur siart droi)
- Pen trwchus
- Papur A3 neu siart droi
- Papur A4 - 1 dalen i bob person

### Hyd

75 munud

## Cychwyn arni

Cyn cychwyn y gweithgaredd yma, bydd angen i chi a phawb sy'n cymryd rhan ddarllen y dogfennau canlynol:

- **Adnodd 1: Model Lundy**
- **Adnodd 4: Cynnwys plant a phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml fel Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc.**

Bydd angen **ffilm Ysgolion Creadigol Iwerddon**, taflunydd, sgrin a seinydd arnoch.

**Linc i ffilm Ysgolion Creadigol Iwerddon:**
https://leadingforcreativethinking.org/creative-schools-republic-ireland

### Gallai'r gweithgaredd yma ddatblygu eich arfer creadigol...




Holi a chwestiynu

Archwilio ac ymchwilio

Herio rhagdybiaethau

Cydweithio mewn ffordd briodol

Myfyrio'n feirniadol

Creu cysylltiadau

## Cam 1 – 5 munud

Trefnwch bawb mewn grwpiau o gwmpas y byrddau. Gwyliwch **ffilm Ysgolion Creadigol Iwerddon** a chyflawni myfyrdod byr - isod mae ambell i syniad ar gyfer cwestiynau myfyrio:

- Beth sylwoch chi?
- Sut mae ein YCC ni yn cymharu â threfn Ysgol Stryd Stanhope a oedd yn cynnwys plant o bob dosbarth?
- Roedd y plant i'w gweld yn chwarae rôl gadarn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Sut mae hyn yn cymharu â'n hysgol ni?
- Roedd meddwl creadigol yn cael ei archwilio ym mhynciau'r celfyddydau yn bennaf – sut mae hyn yn cymharu â'n hysgol ni?

**Linc i ffilm Ysgolion Creadigol Iwerddon:**
https://leadingforcreativethinking.org/creative-schools-republic-ireland

## Cam 2 – 30 munud

Rhowch gyflwyniad byr i Fodel Lundy.

Rhannwch **Adnodd 1**: Model Lundy ac **Adnodd 2**: Graffeg nodau Model Lundy.

Yn eich grŵp, dechreuwch gyda 'Gofod' o **Adnodd 1**. Meddyliwch am YCC cyfredol eich ysgol. Ystyriwch bob un o 4 elfen Model Lundy, cytunwch ar radd a'i marcio ar y Nodau Graffeg.

## Cam 3 – 25 munud

Rhannwch **Adnodd 3**: Model Lundy ar waith – cwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun ac am eich gwaith.
Aseiniwch un elfen o Fodel Lundy i bob grŵp (Gofod, Llais, Cynulleidfa neu Ddylanwad).
Yn eich grwpiau, adolygwch y cwestiynau ar gyfer yr elfen o'r Model Lundy a aseiniwyd i chi yn **Adnodd 3**.
Edrychwch ar y radd ar gyfer yr elfen honno ac ystyriwch:

- A oes angen newid y radd – a ddylai fod yn uwch neu'n is?
- Yn seiliedig ar y cwestiynau, beth gallech chi wella arni neu ei chyflwyno i'ch dull o weithredu o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau? Ysgrifennwch eich syniadau ar ddarn o bapur.

Pob grŵp i rannu eu syniadau cryno â'r grŵp cyfan.

## Cam 4 - 25 munud

Atgoffwch bawb am **Adnodd 4**: Cynnwys plant a phobl ifanc na chlywir eu lleisiau'n aml fel Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc a thaflen **Adnodd 5**: Adolygu eich grŵp Hyrwyddwyr Creadigrwydd Ifanc.

**Yn eich grwpiau, ystyriwch y cwestiynau yn Adnodd 5 gan nodi eich meddyliau a'ch syniadau ar bapur wrth fynd yn eich blaen.**

## Cyd-fyfyrio

### Cam 5 – 10 munud

Rhowch ddarn o bapur A4 i bob person.
Nodwch *GAM NESAF PWYSIG A DDYLAI GODI O HEDDIW…* ar frig y dudalen a chwblhewch y frawddeg gan ysgrifennu'n daclus, ond peidiwch â nodi'ch enw.

Cyfrwch i dri, ac ar dri (nid cyn hynny!) sgrensiwch eich papur yn belen eira. Nawr, ar dri, taflwch hi i unrhyw le yn yr ystafell. Ar dri, codwch belen eira, ei hagor, ei darllen, ac ysgrifennwch ymateb.

Ar dri, sgresiwch y belen eira eto. Ar dri, taflwch hi, ac ar dri eto, codwch belen eira. Darllenwch hi a rhannwch beth sydd arni â'r grŵp cyfan (efallai na fydd digon o amser i bawb rannu).

Ac yn olaf, cytunwch ar y camau nesaf, gan gynnwys sganio a rhannu **Adnodd 5** gan bob grŵp.